

# MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaid held at Conference Room - Usk, NP15 1AD on Dydd Llun, 23ain Ionawr, 2023 at 2.00 pm**

**PRESENT:** County Councillor David Jones (Chairman)  
County Councillor (Vice Chairman)

County Councillors: Louise Brown, Tomos Davies, Meirion Howells, Penny Jones, Peter Strong, Armand Watts, Laura Wright, Jill Bond and Rachel Buckler

## **OFFICERS IN ATTENDANCE:**

John Pearson  
Nicola Perry

Rheolwr Democratiaeth Leol  
Uwch Swyddog Democratiaeth

## **APOLOGIES:**

Councillors Su McConnel and Maria Stevens

### **1. Datganiadau o Fuddiant**

Nid oedd datganiadau o fuddiant.

### **2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd 2023.

Hysbysodd y Rheolwr Democratiaeth Leol y pwyllgor y cafodd yr arolwg ynghylch cynnal seminar ar y system bleidiso ymateb 50% ac ymddangosai fod dymuniad i gynnal y seminar. Byddir yn cadarnhau dyddiad ar gyfer hyn maes o law.

### **3. Trafodaeth ar Drip Sirol yr Aelodau - Llafar**

Agorodd y Rheolwr Democratiaeth Leol drafodaeth am gynllun cynharach i drefnu trip bus o amgylch y sir i ymweld â safleoedd allweddol. Croesawyd Dawn Sadler, Datblygydd Dysgu Sefydliadol, i drafod y cynlluniau ar gyfer y daith. Clywsom fod trefniant tebyg yn ei le ar gyfer staff newydd fel rhan o'r rhaglen sefydlu a chytunwyd y byddai hyn yn ddefnyddiol i Aelodau.

Roedd awgrymiadau am leoedd i ymweld â nhw yn cynnwys:

- Darpariaethau gofal
- Canolfannau Croeso
- Neuadd Sirol Trefynwy
- Amgueddfeydd a Hybiau
- Canolfan Hamdden Trefynwy

Nodwyd y caiff unrhyw oblygiadau i'r gyllideb eu cynnwys yn rhaglen sefydlu 2022.

## MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

### **Minutes of the meeting of Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaid held at Conference Room - Usk, NP15 1AD on Dydd Llun, 23ain Ionawr, 2023 at 2.00 pm**

Cytunwyd ceisio dyddiad ac amser addas fyddai'n gweddu i gynifer o Aelodau ag sydd modd, ac y cadarnheir lleoliadau i ymweld â nhw bryd hynny.

#### **4. Amseriad Cyfarfodydd – dilyn Ian**

Cyflwynodd y Rheolwr Democratiaeth Leol yr adroddiad i gytuno ar fethodoleg a chwestiynau ar gyfer asesu anghenion aelodau ar gyfer amseriad cyfarfodydd cyngor llawn gyda golwg ar wneud argymhelliad i'r cyngor llawn yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Roedd yr ymatebion yn cynnwys:

- Cadw cyfarfodydd y Cyngor Sir am 2pm, gan roi cyfle i bobl weithio yn y bore.
- Gallai dechrau am 5pm arwain at orffen yn hwyr iawn.
- Rhoi gofod ar gyfer sylwadau Aelodau.
- Angen bod mor gynhwysol ag sydd modd.
- Cwestiwn i benderfynu os oes cyfrifoldebau gofalu arbennig.
- Defnyddio'r cyfle i edrych ar hyd cyfarfodydd a therfynau siarad.

*Gadawodd y Cyngorydd Sir Armand Watts y cyfarfod am 14:32pm.*

Nodwyd y cynhelir cyfarfodydd y Cyngor Llawn bob chwe wythnos, gyda chyfle i ychwanegu Cyfarfod Arbennig pan fo angen.

**Cytunodd y Pwyllgor i gytuno ar yr argymhelliad a byddai'n croesawu'r canlyniadau yn y cyfarfod nesaf.**

**I adolygu a chytuno ar y broses i sicrhau y bydd yn casglu'r wybodaeth sydd ei hangen i'r pwyllgor wneud argymhelliad gwybodus ar amseriad cyfarfodydd y Cyngor.**

#### **5. Poster Gwybodaeth Aelodau**

Cyflwynodd y Rheolwr Democratiaeth Leol yr wybodaeth yn dilyn trafodaeth yn y cyfarfod blaenorol. Cynlluniwyd rhestr gyda lluniau o Gynghorwyr gyda'r Tîm Cyfathrebu. Bydd hyn hefyd ar gael yn y Gymraeg a chaiff ei gylchredeg i'r holl staff a'i anfon at bob hyb.

Fel yn ein trafodaethau blaenorol mae dymuniad yn dal i fod i drefnu sesiwn cwrdd a chyfarch gyda phrif swyddogion ond ni chafodd hyn ei drefnu hyd yma.

Yn nhermau'r ffordd orau i gyfathrebu gyda'r cyhoedd, clywsom fod y Tîm Cyfathrebu'n gweithio ar Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd ar hyn o bryd.

Awgrymwyd hefyd ein bod yn cyfeirio at rôl Aelodau nad ydynt ar y Cabinet, tebyg i arweinwyr grwpiau, er mwyn tegwch.

**Penderfynodd y Cyngor i dderbyn y Poster Gwybodaeth Aelodau.**

#### **6. Dyddiad y cyfarfod nesaf – 20 Mawrth 2023**

Nodwyd dyddiad y cyfarfod nesaf.

**The meeting ended at 2.55 pm**